



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 29 Medi 2023

Yn bresennol: Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Kirsty Payne (KP)
John Graystone (JG)
Dr Debbie Nash (DN)
Katie Phillips (KPH)
Yusuf Ibrahim (YI)
Paul Marshall (PM)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

Gwahoddedig: Gillian Gillett (GG), Archwilio Cymru
Andrea Thomas (AT), Archwilio Cymru

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Croesawodd SD bawb i gyfarfod y Bwrdd. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Rhoddodd MP wybod i'r bwrdd am achos posibl o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'i waith diweddar gyda llywodraethwyr ar faterion ariannu ysgolion. Roedd wedi'i enwi mewn deiseb ac mewn llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Cadarnhaodd MP nad oedd unrhyw gyfeiriad at yr Academi Arweinyddiaeth yn y gweithgareddau hyn.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir gydag un gwall bychan y bydd JG yn ei anfon at GA.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu:

209: Nid oes unrhyw beth penodol i'w adrodd o ran monitro gwleidyddol y tro hwn.

221: Awgrymwyd bod YI yn rhannu ei waith gwrth-hiliaeth â Chymdeithion ac mae'n hapus i wneud hyn.

224: Wedi'i gwblhau

225: Ddim yn berthnasol mwyach gan nad yw'r adolygiad wedi'i deilwra'n cael ei gynnal

226: Wedi'i gwblhau

2. Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru

Roedd SD yn falch o groesawu Gillian Gillett (GG) ac Andrea Thomas (AT) o Archwilio Cymru, a ymunodd drwy gyswllt fideo.

Rhoddodd AT grynodeb o ganfyddiadau'r Adroddiad ISA 260 a oedd yn cynnwys gwybodaeth am faterion arwyddocaol o'r archwiliad a lefel y profi. Roedd AT yn falch i nodi nad oedd unrhyw ddatganiadau heb eu cywiro. Byddai'r Archwilydd Cyffredinol nawr yn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar ôl i'r bwrdd eu llofnodi'n ffurfiol ac ychwanegu llofnod y cadeirydd.

Diolchodd AT i KP am yr holl gymorth a chefnogaeth yr oedd wedi'u darparu yn ystod yr archwiliad. Diolchodd SD i'r tîm archwilio ac ailadrodd ei diolch i KP. Gadawodd GG ac AT y cyfarfod.

Mewn ymateb i ymholiad gan MJ, cytunodd KP fod yna newid amlwg wedi bod yn lefel y wybodaeth sy'n ofynnol yn archwiliad eleni yn sgil newid yn y safonau archwilio ar gyfer 2023/24. Roedd yr archwiliad nawr yn fwy ansoddol ac yn treiddio'n ddyfnach i brosesau a pholisïau yn cynnwys rheoli risg a TGCh. Gofynnodd PM pa faterion oedd wedi'u cywiro. Cadarnhaodd KP mai mân gamddatganiadau oeddynt a oedd yn ymwneud â'r amserlen rhagdaliadau.

3. Cadarnhad o Gyfrifon Blynyddol Archwiliedig

Gofynnodd PM am newid ei deitl yn y datganiadau ariannol, o 'Dr' i 'Athro'. Cytunodd holl aelodau'r bwrdd i awdurdodi datganiadau ariannol 2022/23. **Bydd y datganiad nawr yn cael ei lofnodi gan y Cadeirydd ar ran y Bwrdd a chopi'n cael ei anfon i Archwilio Cymru i'w lofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol.**

Roedd JG yn pryderu am y gwarged ymddangosiadol yn y gyllideb, o ystyried y sensitifrwydd am gyllid ar hyn o bryd. Cytunodd KP ei bod hi'n bwysig bod y nodiadau sy'n ategu'r cyfrifon yn esbonio'n glir nad arian parod yn y banc yw'r gwarged ymddangosiadol ond incwm sydd wedi'i ymrwymo i brosiectau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mewn ymateb i awgrym gan YI i symud i fodel ariannu 2 flynedd, cadarnhaodd TE ei bod hi'n parhau i ofyn am hyn ond nad yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno. Yr unig eithriad yw'r cyllid sy'n gysylltiedig â gwaith y Gymraeg mewn Addysg sydd wedi'i gytuno dros 2 flynedd academiaidd.

Gan fod TE wedi'i hysbysu y dylid disgwyl cyllideb ddigyfnewid ar y gorau ar gyfer 2024/25 a thoriad o hyd at 10% ar y gwaethaf, awgrymodd JG y dylid ystyried fel Bwrdd sut i ymateb i unrhyw doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol.

4. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Darparodd MP drosolwg o gyfarfod diwethaf y pwyllgor. Doedd y cyfarfod ddim yn cynnwys unrhyw faterion AD neu lesiant arwyddocaol.

Roedd y pwyllgor wedi derbyn y Rheoliadau Ariannol diwygiedig gyda rhai mân gywiriadau sillafu ac ychwanegu rhifau ar y tudalennau. **Cymeradwyodd y Bwrdd y Rheoliadau Ariannol.**

Roedd y pwyllgor hefyd wedi adolygu'r fersiwn ddrafft o'r Llawlyfr i Weithwyr ac wedi diolch i KP am ei holl waith arno. Byddai rhifau tudalennau'n cael eu hychwanegu i'r ddogfen hon hefyd. Bydd Meleri Light yn treialu'r llawlyfr fel gweithiwr newydd ac yn darparu adborth cyn i'r ddogfen derfynol gael ei chyhoeddi.

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad pwyllgor.

5. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis. Roedd hwn yn gyfarfod dwys gyda thrafodaethau manwl am natur risgiau a'r ffordd orau o adrodd amdanynt a'u monitro. Mewn ymateb i awgrym gan PM, mae'r Tîm Rheoli wedi ailystyried y ffordd roedd risgiau'n cael eu cyflwyno ar y gofrestr risg. Mae'r fersiwn newydd yn adlewyrchu aeddfedrwydd y sefydliad drwy edrych ar risg yn fwy holistaidd yn hytrach na fesul ffrwd waith. Roedd PM yn hapus gyda'r ffordd gadarnhaol roedd y Tîm Rheoli wedi ymateb i argymhelliad y pwyllgor. **Derbyniodd y Bwrdd y fersiwn newydd o'r gofrestr risg.**

Ystyriodd y pwyllgor a oedd yn rhaid i'r strategaeth gael ei chyfyngu gan y cylch gwleidyddol neu a allai'r weledigaeth edrych ymhellach i'r dyfodol.

Gofynnwyd hefyd a ddylid cyflwyno archwiliadau dwfn i'r Bwrdd yn lle'r pwyllgor wrth symud ymlaen, ond cytunwyd y dylid cadw'r rhain ar lefel pwyllgor a gellir eu hailadrodd yn y bwrdd os yw'r pwyllgor yn credu y byddai'n berthnasol. Dylid cyflwyno archwiliadau dwfn gweithredol ar ffrydiau gwaith o fewn y tîm ar gyfer craffu mewnol. Gwerthfawrogwyd y byddai'r gofrestr risg newydd yn gofyn am ddull gwahanol o gynnal archwiliadau dwfn ac efallai na fydd angen cyflwyniad ond y byddant ar ffurf trafodaeth.

Cafwyd trafodaeth ar sut y gallai model ariannu byrdymor weithio'n dda gyda chylch gwaith 5 mlynedd gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd SD fod yr Academi Arweinyddiaeth yn allweddol i ddatblygu'r cylch gwaith ar y cyd a bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran llywio'r gwaith mae'n ei wneud. Dywedwyd ei bod hi'n ddefnyddiol bod y sefydliad nawr yn gallu cael sgysiau â gwahanol uwch swyddogion ar draws

Llywodraeth Cymru gan fod hynny'n darparu golwg mwy cyfannol ar draws adrannau.

Dyweddodd TE fod y Cymdeithion yn allweddol i sbarduno newid polisi gyda'u gwaith comisiwn. Roedd TE'n credu y gallai'r adolygiad Haen Ganol fod yn amser delfrydol i bennu'r weledigaeth o ran sut mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gweld ei hun fel partner yn gweithio yn y sector. Awgrymodd YI y dylai'r sefydliad ofyn y cwestiwn hwn i'w hun – 'Sut y gallwn ni fod yn amhosibl i'n disodli?'.

Tynnodd MJ sylw at rôl sicrhau ansawdd fel un o'r pethau a fyddai'n helpu i gynnal annibyniaeth yr Academi Arweinyddiaeth. Un o'r heriau mwyaf yma yw bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu dysgu proffesiynol sydd heb ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Efallai y bydd hyn yn newid gan fod y Llywodraeth yn gweithredu ei gweithdrefn sicrhau ansawdd ei hun ar gyfer darpariaeth sydd ddim yn arweiniol. Cadarnhaodd TE fod logo'r Academi Arweinyddiaeth yn ymddangos ar ddeunydd darpariaethau sydd wedi'u cymeradwyo.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad a diolch i bawb am y drafodaeth strategol llawer ehangach a ddilynodd. Nodwyd bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn llawer mwy cynhyrchiol ar gyfer sgysiau fel y rhain.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Esboniodd TE fod yna lai o weithgarwch yn ystod gwyliau haf yr ysgol ac felly mae yna fwy o amser i werthuso'r dogfennau strategol a'r ffrydiau gwaith.

Mae Meleri Light wedi bod yn ei swydd am bron i fis bellach ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ble mae'r Gymraeg yn perthyn yn y sefydliad a sut yr adroddir arni. Soniodd TE am ddwy ochr swydd Meleri – y swydd fewnol o sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau ac yn arwain y ffordd o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Mae elfen allanol y swydd yn ystyried sut i gefnogi ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i fodloni'r targedau yng nghynllun gweithlu 10 mlynedd y Gymraeg mewn Addysg. Bydd Meleri'n gweithio mewn partneriaeth â chyrrff allanol ac mae wedi bod yn mynd gyda TE i'r holl gyfarfodydd perthnasol. Yn ddiweddar, rhoddodd Meleri gyflwyniad diddorol iawn i gynrychiolwyr o **Seland Newydd** ar hanes y Gymraeg.

Pwysleisiodd TE y byddai'r strategaeth Gymraeg yn flaenoriaeth hirdymor bwysig er mai dim ond am 2 flynedd mae'r sefydliad wedi sicrhau cyllid ar gyfer y swydd.

1.1 Sicrwydd Ansawdd – Roedd TE yn falch o ddweud bod mwy o ddarparwyr preifat nawr yn cyflwyno eu darpariaethau ar gyfer eu cymeradwyo. Roedd hi'n ddefnyddiol nodi nad yw pob darpariaeth yn llwyddo i gael cymeradwyaeth a bod dull yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r darparwyr aflwyddiannus. Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cymeradwyo yn cael eu monitro ac mae Richard Edwards yn cefnogi Mark Isherwood yn y maes hwn.

Gofynnodd MJ a oedd dulliau eraill wedi'u hystyried gan fod y broses gymeradwyo gyfredol yn ymddangos yn gallu ymddangos yn eithaf hir a beichus. Atebodd TE mai cryfder y broses gyfredol dan arweiniad cymheiriaid yw mai'r arweinwyr h.y. y

Cymdeithion sy'n gwneud y penderfyniadau. Mae yna raglen hyfforddi ar gyfer y panel y byddai TE yn hapus i aelodau'r Bwrdd fynd arni. Mewn ateb i ymholiad gan MP, roedd TE yn amau a fyddai modd i'r system gyfredol ymdopi pe bai yna gynnydd mawr mewn darpariaethau yn gofyn am gymeradwyaeth. Tynnodd TE sylw hefyd at y broses garlam a ddatblygwyd ar gyfer y darpariaethau a oedd wedi cael achrediad allanol neu a oedd yn dod gan ddarparwyr oedd â darpariaethau eraill wedi'u cymeradwyo. Cytunwyd i barhau â'r sgwrs hon y tu allan i'r cyfarfod ac i gynnwys Mark Isherwood sydd â gwybodaeth fanwl am y broses.

1.2 Arloesi – Dywedodd TE fod cyllid wedi'i ddyrannu i Brifysgol Met Caerdydd i gefnogi ei rhaglen Athro i Bennaeth ar gyfer athrawon mwyafrif byd-eang. Mae rhywfaint o'r gronfa gyllid arloesi nawr wedi'i ailgyfeirio i Ffederasiwn y Cymdeithion i gefnogi eu hymchwil. Mae'r gweithdai arloesi wedi'u hoedi am y flwyddyn academaidd hon.

1.3 Arweinyddiaeth System – Mae carfanau 3 a 4 bellach wedi cwblhau eu model a ariannwyd a'r mwyafrif wedi dewis ymuno â'r ffederasiwn, Mae carfan 5 yn parhau â'r rhaglen. Mae carfan 6 newydd gael cyfnod sefydlu yn ystod eu profiad dysgu cyntaf yng Nghaerdydd, profiad cadarnhaol iawn oedd yn eu cyfoethogi. Mae'r garfan hon yn cynnwys 16 Cydymaith o wahanol sectorau a gwahanol ardaloedd daearyddol o Gymru.

Soniodd PM am y rhaglen Cymdeithion a'i bod yn unigryw gyda llawer iawn o dystiolaeth o newid cadarnhaol. Awgrymodd gyflwyno'r rhaglen am wobr. Diolchodd TE i PM am ei awgrym a bydd ystyriaeth yn cael ei roi i hyn wrth symud ymlaen.

Cynhaliodd Ffederasiwn y Cymdeithion ei gyfarfod cyntaf ddechrau mis Hydref. Diolchodd TE i bawb am adolygu cylch gorchwyl y grŵp hwn ac mae'r diwygiadau a awgrymwyd wedi'u cynnwys. Roedd TE yn gyffrous iawn am y fenter newydd hon a chadarnhaodd fod dros hanner y Cymdeithion cymwys wedi cofrestru.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ar y ffordd orau o ddal cof sefydliadol. Yn yr Arolwg Arweinyddiaeth nodwyd mai anaml y cynhaliwyd cyfweiliadau gadael ym myd addysg felly gallai data ansoddol gwerthfawr fynd ar goll. Cadarnhaodd TE fod sgwrsiau proffesiynol yn cael eu cynnal â Chymdeithion bob blwyddyn.

Mae'r prosiect Pencampwyr Cyrhaeddiad cychwynnol wedi'i gwblhau ond mae trafodaethau wedi cychwyn am ymestyn y cynllun peilot.

1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – Rhoddodd TE raghysbysiad am gynhadledd wyneb yn wyneb a fyddai'n cael ei chynnal ar 29 Tachwedd ac fe anogir aelodau'r Bwrdd i'w mynychu. Bydd hon yn disodli'r fforwm rhanddeiliaid a gynhaliwyd fis Tachwedd y llynedd. Bydd y gynhadledd hon yn cael ei gyrru gan arweinyddiaeth gan edrych ar sut i gefnogi arweinwyr mewn system hunan-wella. Bydd hefyd yn cynnwys sesiynau yn trafod gwrth-hiliaeth a'r Gymraeg, gan atgyfnerthu bod y rhain yn rhan bwysig o rôl arweinydd.

2.1 Adnoddau – Bydd Pennaeth y Gymraeg yn gweithio ar dreialu adnodd hunan-werthuso Llywodraeth Cymru gydag ysgolion ledled Cymru.

2.2 Ciplwg – Mae comisiwn carfan 3 wedi'i gyhoeddi drwy lansiad ysgafn ac wedi'i ddyfynnu gan Estyn. Roedd TE yn falch o nodi bod gwaith Cymdeithion yn cael effaith ar bolisi. Gwerthfawrogwyd y bydd angen i sgysiau gael eu cynnal â Llywodraeth Cymru ar sut i weithredu argymhellion i sicrhau bod yna ddigon o allu i wneud hynny.

Aeth yr Arolwg Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn fyw ar 18 Medi a'r gobaidh yw gallu cynnwys cymaint o arweinwyr â phosibl. Mae'r arolwg yn cau ar 10 Tachwedd a dyma'r tro cyntaf mae arweinwyr wedi cael cyfle i roi eu barn ar yr Academi Arweinyddiaeth.

Mae'r Athro Carol Campbell wedi cynnal adolygiad o lenyddiaeth ynghylch ymarfer myfyriol a'r cam nesaf fydd trafodaeth ddilynol rhwng yr Athro Campbell, CGA a'r Academi Arweinyddiaeth ar sut i ledaenu.

2.3 Llesiant – Mae Dr Chris Lewis wedi cyfarfod Llywodraeth Cymru a gadarnhaodd y bydd yn symud i Gam 2 y prosiect Llesiant, ond mae'n dymuno cynnwys y consortia rhanbarthol. Nid oes cyllid ar gyfer Cam 2 wedi'i gadarnhau eto. Roedd TE yn falch o nodi bod llwyth gwaith yn rhan o bortffolio Kevin Palmer erbyn hyn.

Mae carfan 5 wedi'i rhannu yn 2 grŵp i weithio ar eu comisiynau. Bydd un yn gweithio ar y Cwricwlwm i Gymru tra bydd y grŵp arall yn canolbwyntio ar Lesiant.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – Mae prosiect Recriwtio a Chadw NIESR ar y trywydd iawn i'w gwblhau mewn pryd ac mae adborth cychwynnol wedi'i dderbyn. Dylai'r adroddiad fod yn barod erbyn diwedd mis Hydref a dylai gael ei gyhoeddi ar ôl y Nadolig.

3.1 Llywodraethu Effeithiol – Mae'r Adolygiad wedi'i Deilwra wedi'i oedi ond mae'r Adolygiad Thematig yn parhau. Dylai pawb fod wedi derbyn yr e-bost i gwblhau'r arolwg ac roedd TE yn falch o nodi bod yr Academi Arweinyddiaeth yn arwain y ffordd gyda chyfraddau ymateb.

Mae'r gofrestr risg newydd wedi'i thrafod o dan eitem 5 yr agenda.

3.2 Swyddogaeth Weithredol – Mae'r Llawlyfr Gweithwyr wedi'i ddrafftio a bydd yn cael ei dreialu gyda'r aelod staff newydd, Meleri Light.

Mae'r Gofrestr Risg newydd, BAF ac adroddiad yr Archwiliad Allanol i gyd wedi'u dosbarthu i aelodau'r Bwrdd. Mae Cyber Essentials wedi'i ddyfarnu am flwyddyn arall.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – Bydd Charlotte Thomas, y Rheolwr Marchnata, yn rhoi diweddariad ar y Strategaeth Gyfathrebu o dan eitem 7 yr agenda.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – Mae'r broses flynyddol o adnewyddu'r grŵp wedi'i gwblhau. Mae pum aelod wedi gorffen eu tymor ac mae TE wedi gofyn iddynt barhau i weithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth y tu hwnt i'w haelodaeth o'r grŵp. Penodwyd deuddeg aelod newydd.

Mae cytundeb partneriaeth nawr yn ei le gydag Estyn a'r gobaidh yw cydweithio mwy â nhw yn y dyfodol i edrych pam mae ysgolion yn methu ac edrych ar lywodraethu,

arweinyddiaeth a rheolaeth. Cytunodd MP os oes yna feirniadaeth o arweinyddiaeth fod hyn yr un mor berthnasol i lywodraethiant ag yw i Benaethiaid ac uwch arweinwyr. Mae'r gefnogaeth y mae awdurdod lleol yn ei rhoi i lywodraethwyr yn sylfaenol bwysig hefyd i'w helpu yn y rôl. Mewn ymateb i awgrym gan YI am gynnwys llywodraethwyr fel Cymdeithion, cadarnhaodd TE fod hyn wedi'i drafod ond teimlir y byddai angen model gwahanol.

Gofynnodd JG am gynnwys gwybodaeth ynghylch o le mae rhanddeiliaid yn dod yng nghofnodion rhanddeiliaid.

Gofynnodd KPH pam roedd gweithdai Pen-i-ben ac arloesi wedi'u hoedi. Esboniodd TE mai'r prif reswm oedd diffyg presenoldeb. Nid oedd hi'n hyfyw i barhau i gynnal y rhain felly o safbwynt adnoddau. Roeddynt wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod y pandemig ond nawr bod staff yn ôl yn y gwaith roedd hi'n anodd iawn neilltuo amser i fynychu sesiynau.

Diolchodd SD i TE am ddarparu adroddiad cynhwysfawr iawn llawn gwybodaeth fel arfer.

7. Strategaeth Gyfathrebu

Rhoddodd Charlotte Thomas (CT) gyflwyniad ar y Strategaeth Gyfathrebu ar ôl gwerthuso strategaeth y llynedd dros yr haf a diweddarau ar gyfer gweddill cyfnod y cylch gwaith. Mae'r amserlen yn cyd-fynd â dogfennau eraill fel y cynllun corfforaethol.

Pwysleisiodd CT bwrpas ac amcanion allweddol y strategaeth ac amlinellodd y dull a fyddai'n cael ei gymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r dull hwn yn cynnwys 4 cam fel a ganlyn:

- Cyrhaeddiad – creu ymwybyddiaeth a chyfleu gwybodaeth
- Gweithredu – meithrin ymddiriedaeth
- Troi – ysbrydoli gweithredu a theyrngarwch
- Ymgysylltu – cysylltu pobl ac annog rhwydweithio

Soniodd CT am ddefnyddio cymysgedd o weithgareddau ar-lein ac all-lein i lwyddo gyda'r dull hwn. Byddai'n gweithio'n agos â thimau addysg Llywodraeth Cymru i rannu cynnwys defnyddiol, credadwy drwy'r holl sianeli amrywiol. Roedd CT yn bwriadu canolbwyntio mwy ar gynnwys gwrth-hiliaeth a'r Gymraeg, gan hyrwyddo dwyieithrwydd mewn deunydd a rennir. Roedd hunaniaeth y brand i'w weld yn gryf ac roedd CT yn hapus gyda'r palet lliwiau unigryw.

Roedd CT wedi cynnwys tabl ar ddiwedd dogfen y strategaeth a oedd yn rhoi rhestr lawn o amcanion marchnata.

Ymhelaethodd CT ar fater segmentu drwy esbonio sut y bydd cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i greu negeseuon wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd ar draws y sector. Mewn ymateb i gwestiwn gan MJ, cadarnhaodd CT ei bod yn gallu targedu cam gyrfa a sector ond yr hoffai gael mwy o

wybodaeth am ardal. Dylai'r Arolwg Arweinyddiaeth ddarparu mwy o wybodaeth am leoliad, cam gyrfa, sector, ardal ac oedran er bod yr olaf yn ddewisol.

Pwysleisiodd CT bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid i feithrin teyrngarwch i frand ac mae'n bwriadu gweithio mwy gyda rhanddeiliaid a Chymdeithion, gan eu defnyddio fel llysgenhadon brand. Bydd yn eu hannog i hyrwyddo'r Academi Arweinyddiaeth ym mhob sianel sydd ar gael. Dylent hefyd fod yn amhrisiadwy o ran cyfrannu blogiau ac astudiaethau achos cyfredol.

Defnyddiodd CT fatrics i werthuso cymysgedd cyfathrebu a thactegau i ymdrech isel/uchel ac effaith isel/uchel. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i sicrhau bod adnodd yn cael ei ddyrannu i'r gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae'r strategaeth yn cynnwys 'Cymysgedd Tactegol' – tabl o adnoddau marchnata fel post uniongyrchol, dadansoddiad o eiriau allweddol, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol etc gan nodi cynulleidfa darged a chymorth a chyllid. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn i brofi dulliau wedi'u targedu a phenderfynu ble i neilltuo mwy o adnoddau i gyflawni amcanion.

Diolchodd SD i CT am gyflwyniad diddorol iawn llawn gwybodaeth - roedd ei brwdfrydedd yn amlwg yn y cyflwyniad. Cyfeiriodd JG at yr arolwg diweddar yn y Senedd a ddangosodd lefelau eithaf isel o ymwybyddiaeth o waith yr Academi Arweinyddiaeth. Adroddodd CT fod y tîm wrthi'n edrych ar ddull ymgysylltu gwleidyddol a allai gynyddu ymwybyddiaeth. Yn ddiweddar, paratowyd adroddiad i'r Gweinidog ar weithdai arloesi digidol a gafodd dderbyniad da.

Byddai JG yn awyddus i fynd i fwy o ddigwyddiadau felly bydd CT yn rhannu rhestr y Cyfryngau a Digwyddiadau ag aelodau'r Bwrdd. Gofynnodd DN am ffigurau cymharol ar gyfer ymgysylltu yn y sianeli gwahanol rhwng eleni a llynedd. Mae CT yn gallu darparu hyn fesul mis er y gallai cymariaethau gwefan fod yn anoddach yn sgil y newid diweddar gyda Google Analytics.

Roedd cyflwyniad CT a'r ffordd roedd y strategaeth wedi esblygu wedi creu argraff fawr ar YI. Awgrymodd y dylid cynnal rhai digwyddiadau anarferol ar y calendr fel Diwrnod Gwiwerod y Byd a Diwrnod Lego Cenedlaethol. Gellid cysylltu'r ffeithiau hwyliog hyn wedyn â'r negeseuon gwrth-hiliol mewn ffordd arloesol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan MJ, cadarnhaodd CT fod y gyllideb gyfathrebu yn £12,000 y flwyddyn. Roedd pawb yn rhyfeddu cymaint o werth da am arian oedd hyn a bod y tîm yn gallu cyflawni cymaint ar ychydig.

8. Adolygu Cylch Gorchwyl

Roedd y Bwrdd wedi adolygu'r cylch gorchwyl cyfredol gan awgrymu rhai diwygiadau yn y cyfarfod blaenorol. Cadarnhaodd SD mai Llywodraeth Cymru oedd yn penodi Cadeirydd y Bwrdd. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cydnabod penodiad y Dirprwy Gadeirydd ond cytunwyd ei bod hi'n bwysig cynnwys hyn.

Roedd SD wedi gwirio gyda Swyddfa'r Cyrff Cyhoeddus am amllder cyfarfodydd ac roedd 4 cyfarfod y flwyddyn yn ddigon. Cytunwyd i ddilyn y cylch adrodd hwn a

fyddai wedyn yn caniatáu ar gyfer cyfarfodydd eithriadol os oedd angen. Pe bai cyfarfodydd yn cael eu symud i fod yn chwarterol yna gallai'r cyfan gael eu cynnal wyneb yn wyneb a chynnwys sesiynau hyfforddi fel sesiwn heddiw ar ADY. Cytunwyd felly i symud i gyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau chwarterol yn y misoedd canlynol: Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref. Bydd cyfarfodydd mis Tachwedd yn cael eu canslo a'u haildrefnu ar gyfer mis Ionawr. Bydd KP yn dosbarthu rhestr ddiwygiedig o gyfarfodydd.

Diolchodd SD i bawb am gwblhau'r Archwiliad Sgiliau a oedd wedi nodi sawl maes ar gyfer uwchsgilio yn gysylltiedig â'r cynllun corfforaethol. Y 5 maes uchaf ar gyfer hyfforddiant pellach oedd: gwaith ieuencid, ysgolion bro, y Gymraeg mewn Addysg, datblygu'r cwricwlwm ac ADY. Mae hyn yn darparu cynllun sylfaenol ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol a bydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod gan bob aelod o'r bwrdd sgiliau perthnasol ar gyfer eu swyddi. Awgrymodd JG y byddai cadw archif o hyfforddiant yn gofnod defnyddiol i aelodau newydd y Bwrdd. Roedd TE hefyd yn ystyried llawlyfr i gyfarwyddwyr yn ogystal â rhaglen sefydlu/hyfforddi.

Cytunodd y Bwrdd ar y diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl. Bydd KP yn gwneud y newidiadau ac yn eu dosbarthu gyda phapurau mis Ionawr.

9. Cyflwyniad ADY

Croesawodd SD Simon Roberts (SR) a fyddai'n rhoi'r cyflwyniad ar ADY heddiw. Ymddiheurodd SD ar ran ei gydweithiwr Catrin Thomas oedd yn methu dod i'r sesiwn heddiw.

Cyflwynodd Simon ei hun fel aelod o Garfan 3 a Phennaeth ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf. Roedd comisiwn Carfan 3 wedi archwilio rôl arweinyddiaeth addysgol o ran cyflwyno diwygiadau ADY yng Nghymru.

Y prif ganfyddiadau oedd bod y system ADY yn heriol, yn gymhleth, yn straen, yn llethol ond yn gynhwysol. Roedd negeseuon allweddol, argymhellion a chynlluniau gweithredu'n canolbwyntio ar:

- Yr effaith ar lesiant CADY
- Recriwtio a chadw CADY
- Partneriaethau addysgol amlasiantaeth
- Cyllid
- Gallu ysgolion Cymraeg i ddarparu'r rhaglen hon

Anfonwyd arolwg i bob Pennaeth a CADY ym mis Rhagfyr 2022 yn gofyn cwestiynau ar arbenigedd sgiliau, gallu, cyllid etc. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y sector addysg ond nid cymaint gan y sector iechyd. Amlygodd yr arolwg broblemau mewn recriwtio staff gyda'r sgiliau perthnasol yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd cyllid hefyd yn broblem fawr ac nid oedd rhai yn deall y fformiwla gyllido.

Cynhaliwyd cyfweiliadau strwythuredig ar ôl yr arolwg gyda 65% o bobl mewn swyddi CADY yn teimlo bod y gwaith wedi cael effaith andwyol ar eu llesiant. Llwyth gwaith

oedd y brif broblem gyda llawer yn cael trafferth i gydbwysu rôl CADY a bod yn athro/athrawes ystafell ddosbarth. Roedd yn achos pryder bod rhai'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb yn ôl gan eu bod yn teimlo nad oedd y cyfrifoldeb werth yr arian ychwanegol.

Gwnaed yr argymhellion canlynol yn y cynllun gweithredu:

- Dylid cael adnoddau digonol
- Mwy o gyfle i ddatblygu rhwydweithiau a chydweithio
- Recriwtio a chadw – 65% o ysgolion yn cael trafferth recriwtio
- Cydnabyddiaeth i CADY – amodau a thâl gwell (dim ond £40 ychwanegol y mis ar hyn o bryd)
- Amser rhyddhau penodol
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r holl staff – anghyson ledled Cymru
- Mwy o eglurder am rolau
- Adolygiad o'r broses bontio pan fo plant yn pontio o un ysgol i'r llall ac o un awdurdod lleol i'r llall.

Soniodd SR hefyd am ddiffyg cymorth gan asiantaethau allanol a gwahaniaeth anferth rhwng addysg ac iechyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell mecanwaith gyllido gyson a theg ac adnoddau digonol, yn enwedig adnoddau Cymraeg.

Roedd SR yn falch iawn bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ac yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Roedd SD yn bryderus iawn am y broblem gyllido gan mai dim ond am 2 flynedd y clustnodwyd y Grant Trawsnewid. Roedd SD yn credu y dylai CADY fod yn yr uwch dîm rheoli gan fod cyfrifoldeb statudol yn perthyn i'r rôl ond mewn rhai ysgolion roedd y rôl hon wedi'i dyrannu i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu (LSAs).

Roedd SR yn cytuno'n llwyr am y grant trawsnewid gan fod hwn wedi bod yn allweddol i sicrhau bod y system yn digwydd. Roedd yn bryderus bod staff sydd angen yr hyfforddiant/cymhwyster hwn wedi gorfod gwneud y gwaith ar benwythnosau.

Dywedodd SD fod ADY nawr yn rhan o'r brif raglen hyfforddi ar gyfer athrawon newydd. Roedd hi hefyd yn ymddangos yn bwysig bod llywodraethwyr ysgolion yn deall y rôl hon. Pryder arall oedd yr aros hir am asesu plant gyda llawer o rieni'n rhoi pwysau ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Teimlwyd bod hyn yn atgyfnerthu'r bwch rhwng y cyfoethog a'r tlawd ac yn aml yn gadael y plant sydd fwyaf angen yr help ar ôl. Soniodd DN am y problemau o ran pobl ifanc yn mynd i addysg uwch yn dal heb gael diagnosis neu dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gofynnodd JG am nifer y CADY a oedd yn rhoi'r gorau i'r rôl. Honnodd SR fod 37% yn ystyried gwneud hynny oedd yn bryderus iawn.

Diolchodd SD i SR am ei gyflwyniad ar bwnc a oedd yn agos iawn at ei chalon. Dywedodd TE fod y Dirprwy Gyfarwyddwr ADY wedi siarad yn y Grŵp Cynghori Gweinidogion gan ddweud bod hwn yn adroddiad torcalonnus ond angenrheidiol iawn. Roedd TE yn falch iawn o'r cyfle hwn i ddylanwadu ar bolisi'n fwy uniongyrchol a diolchodd i SR am ei drosolwg heddiw a oedd wedi amlygu nifer o faterion.

Cadarnhaodd SD fod Llywodraeth Cymru bellach wedi comisiynu adroddiad arall ar rôl CADY.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 30 Ionawr – lleoliad i'w gadarnhau.

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw a chaeodd y cyfarfod am 3.30pm.

Log Gweithredu

Rhif		Pwy	Terfyn amser	Statws
209	Nodi unrhyw beth perthnasol o'r adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
221	Gofyn i Gymdeithion gopïo YI i mewn i waith cwricwlwm. YI i rannu gwrth-hiliaeth	TE/YI	Parhaus	
227	Cymeradwyo cyfrifon archwiliedig	SD	Hydref 2023	Cwblhawyd
228	Trafod rhaglen gymeradwyo	TE/MI/Cyfarwyddwyr	Hyd/Tach 2023	
229	Ystyried gwneud cais am wobwr ar gyfer rhaglen Cymdeithion	TE a'r Tîm	Hyd/Tach 2023	
230	Cynnwys manylion rhanddeiliaid yn y cofnodion	KP	Hydref 2023	Cwblhawyd
231	Rhannu rhestr y Cyfryngau a Digwyddiadau â'r Bwrdd	CT	Hydref 2023	Cwblhawyd
232	Dosbarthu rhestr	KP	Hydref 2023	Cwblhawyd

	ddiwygiedig o gyfarfodydd			
233	Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig V7	Pawb	Ionawr 2024	